

PRYDAU YSGOL AM DDIM YNG NGHYMRU: GWYBODAETH I YSGOLION



Mae'r daflen hon yn nodi'r cwestiynau rydym yn rhagweld y bydd gan ysgolion ar ôl i Lywodraeth Cymru gyflwyno trothwy incwm a enillir net blynyddol o £7,400 ar gyfer hawlwr Credyd Cynhwysol sydd am hawlio prydau ysgol am ddim i'w plant.

Pa ddisgyblion sy'n gallu cael prydau ysgol am ddim?

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion cymwys sy'n mynd i'r ysgol yn llawn amser. Maen nhw'n cynnwys:

- Plant iau sy'n gwneud diwrnodau llawn yn y meithrin
- Disgyblion ysgol chweched dosbarth

Mae'n bosib y bydd disgybl yn gallu cael prydau ysgol am ddim os yw ei riant neu warcheidwad yn cael un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Eifen warantedig Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant (ar yr amod nad yw'r rhiant yn gallu cael Credyd Treth Gwaith ac nad yw'n ennill incwm gros blynyddol o fwy na £16,190)
- Credyd Treth Gwaith yn parhau - sy'n cael ei dalu am 4 wythnos arall ar ôl i hawlydd beidio â bod yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith
- hyd at 31 Mawrth 2019, Credyd Cynhwysol ¹
- o 1 Ebrill 2019, Credyd Cynhwysol, ar yr amod bod gan yr aelwyd incwm a enillir net blynyddol² o ddim mwy na £7,400 (fel yr aseswyd gan enillion o hyd at dri o gyfnodau asesu diweddaraf yr aelwyd).

Gallai disgyblion sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm eu hunain allu cael prydau ysgol am ddim hefyd.

Er mwyn i blant/pobl ifanc fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim:

- rhaid bod y rhiant (neu'r plentyn/person ifanc) yn cael y budd-dal neu daliad cymorth perthnasol
- dylai cais am brydau ysgol am ddim fod wedi'i gyflwyno i'r awdurdod lleol
- dylai'r cais fod wedi cael ei gymeradwyo, neu dylai fod dogfennau wedi cael eu gweld sy'n awgrymu'n gryf eu bod yn gymwys.

¹Gwnaed hyn fel mesur dros dro, tan fydd meini prawf cymhwysedd newydd wedi'u datblygu.

²Diffinnir incwm net a enillir fel incwm aelwyd ar ôl trethi a didyniadau. Nid yw'n cynnwys incwm o'r Credyd Cynhwysol na budd-daliadau eraill.

Beth am golegau addysg bellach?

Nid yw prydau ysgol am ddim ar gael i fyfyrwyr mewn colegau addysg bellach.

Dylai myfyrwyr o aelwydydd incwm isel sydd mewn coleg addysg bellach gysylltu â Swyddog Cymorth Myfyrwyr y Coleg oherwydd mae'n bosib bod yna ryw fath o gymorth gyda chostau prydau ar gael.

Beth os yw plentyn yn ddisgybl mewn ysgol breifat?

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys sy'n mynd i ysgolion a gynhelir yn unig. Mae hyn yn golygu na all rhieni hawlio prydau ysgol am ddim i'w plentyn os yw'r plentyn yn ddisgybl mewn ysgol breifat neu annibynnol.

Mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn cael eu rhedeg naill ai gan gwmnïau annibynnol neu elusennau.

Os yw plentyn/person ifanc wedi cael ysgoloriaeth neu fwrsari, dylai'r rhiant edrych i weld a yw'r cyllid hwn yn cynnwys dyraniad ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Os nad yw, mae angen i'r rhiant weld a oes cymorth ariannol pellach ar gael drwy gysylltu â'r corff a ddyfarnodd yr ysgoloriaeth i'r plentyn neu'r ysgol.

Sut mae rhieni'n gwneud cais am brydau ysgol am ddim?

Y ffordd hawsaf yw gwneud cais ar-lein. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ffurflen gais ar-lein ar eu gwefan.

Mae rhieni'n debygol o gysylltu ag ysgol eu plentyn a gofyn am gyfarwyddyd ynghylch gwneud cais ac felly efallai y byddai'n dda o beth i ysgolion ymgynefino â thudalennau gwe eu hawdurdod lleol am brydau ysgol am ddim a dysgu am y broses ymgeisio.

Pan mae'n hysbys bod rhiant/gofalwr yn gymwys, a all awdurdod lleol gofrestru disgybl ar gyfer prydau ysgol am ddim os nad oes cais wedi cael ei wneud?

Ni all disgybl gael ei gofrestru i fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac ni ellir dyfarnu prydau ysgol am ddim yn awtomatig os nad oes cais wedi cael ei wneud gan neu ar ran y rhiant neu'r disgybl. (Gan amlaf, byddai rhywun sy'n gweithredu ar ran rhiant neu ddisgybl yn berthynas neu'n ffrind, neu'n rhywun sy'n gweithio ar ei ran i'w helpu i gael yr holl fudd-daliadau y mae ganddo hawl iddynt, er enghraifft, cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth).

Bydd rhai awdurdodau lleol yn cysylltu â rhieni/gofalwyr i ofyn iddynt a ydynt am wneud cais am brydau ysgol am ddim i'w plentyn (plant) os ydynt yn meddwl eu bod yn gymwys.

Hefyd, bydd nifer o awdurdodau lleol yn annog rhieni i hawlio prydau ysgol am ddim oherwydd mae cael mwy o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gallu arwain at gyllid ychwanegol i'r ysgol neu'r awdurdod lleol (Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru a'r Setliad Llywodraeth Leol, er enghraifft).

Os yw person yn gwneud hawliad, sut mae eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei wirio?

Mae Adran Addysg Lloegr wedi datblygu system gwirio cymhwysedd ar-lein. Mae modd gwirio a yw unigolyn yn gymwys drwy ddefnyddio'i ddyddiad geni a'i rif yswiriant gwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn talu fel bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu defnyddio'r system hon.

Mae'r system gwirio cymhwysedd yn gallu cael ei defnyddio'n llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion. Lle mae modd ei defnyddio, nid oes angen i hawlwr gyflwyno prawf o'u hawl i fudd-daliadau a/neu eu henillion.

Os nad yw'r system gwirio cymhwysedd yn cael ei defnyddio, bydd gofyn i'r hawlwr gyflwyno prawf o fudd-daliadau ac unrhyw enillion.

Beth yw "Amddiffyniad wrth bontio"?

Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reolau newydd ar gyfer hawlio prydau ysgol am ddim. Oherwydd hyn, gallai nifer cymharol fach blant a phobl ifanc fod wedi colli eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Cyflwynwyd "amddiffyniad wrth bontio" i sicrhau y gallai'r plant a'r pobl ifanc hyn barhau i dderbyn prydau ysgol am ddim am gyfnod cyfyngedig.

Gellir crynhoi amddiffyniad wrth bontio fel a ganlyn:

- Yn achos unrhyw blentyn neu berson ifanc a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar 1 Ebrill 2019, pan gyflwynwyd y rheolau newydd, bydd ei hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei ddiogelu nes 31 Rhagfyr 2023³, hyd yn oed os yw ei amgylchiadau'n newid ac nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach.
- Yn achos unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim rhwng 1 Ebrill 2019, pan gyflwynwyd y rheolau newydd, a 31 Rhagfyr 2023, bydd ei hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei ddiogelu nes 31 Rhagfyr 2023, hyd yn oed os yw ei amgylchiadau'n newid ac nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach.
- Bydd unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar 31 Rhagfyr 2023 yn parhau i gael prydau ysgol am ddim tan ddiwedd y cyfnod hwnnw o'i addysg (h.y. nes iddo orffen y cyfnod mae ynddo ar 31 Rhagfyr 2023, naill ai addysg gynradd neu addysg uwchradd). Mae hyn yn

³Dyma'r dyddiad y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhagweld y bydd Credyd Cynhwysol wedi cael ei gyflwyno'n llawn, ac mae'n seiliedig ar y disgwyliadau diweddaraf adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

gymwys hyd yn oed os yw ei amgylchiadau'n newid ac nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach.

- Ni fydd amddiffyniad wrth bontio yn cael ei ymestyn i hawl wyr sydd ddim ar Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol, ac felly sydd ddim yn cael eu heffeithio gan y newid mewn meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Yn yr ysgol hon, mae gennym deulu lle mae prydau ysgol am ddim un plentyn yn cael eu diogelu ac nid yw'r llall yn cael prydau ysgol am ddim. Pam felly?

Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw bod un o'r plant yn destun "amddiffyniad wrth bontio" (gweler yr adran cyn yr un hon ar "Amddiffyniad wrth bontio") a'r llall ddim.

Mae'r amddiffyniad wrth bontio yn berthnasol i'r plentyn neu'r person ifanc yn hytrach na'r teulu. Mae'n bosib, o fewn un teulu, y bydd rhai plant yn gallu cael prydau ysgol am ddim oherwydd amddiffyniad wrth bontio ac eraill ddim. Er enghraifft, ni fydd plant iau yn cael yr hawl i brydau ysgol am ddim fel mater o drefn os oes gan frawd neu chwaer hŷn amddiffyniad wrth bontio.

Rydym wedi cael cyfarwyddyd i gofnodi'r plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r plant sydd ag amddiffyniad wrth bontio ar wahân ar gyfrifiad blynyddol yr ysgol. Pam?

Mae angen i ni allu gwahaniaethu rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ag amddiffyniad wrth bontio. Mae hyn oherwydd bod a yw plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dylanwadu ar sawl peth. Er enghraifft, mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dylanwadu ar y ffordd y dyrennir cyllid llywodraeth leol. Mae cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn gallu arwain at gymhwysedd i gael grantiau penodol.

Pan mae person yn gweithio ac yn cael Credyd Cynhwysol hefyd, eisiau hawlio prydau ysgol am ddim, sut bydd yn gwybod a yw'n ennill mwy na £7,400 y flwyddyn?

Os yw person sy'n gweithio ac sydd hefyd yn hawlio Credyd Cynhwysol eisiau hawlio prydau ysgol am ddim, efallai na fydd yn gwybod a yw'n ennill mwy na £7,400 y flwyddyn. Pan fydd yn hawlio prydau ysgol am ddim, bydd ei awdurdod lleol yn gwirio a yw'n gymwys drwy'r system gwirio cymhwysedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y system gwirio cymhwysedd yn cyfrifo a yw'r enillion yn llai na £7,400 ac a yw'r person yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim.

Mewn achosion eraill, bydd yr awdurdod lleol yn gofyn i'r person gyflwyno prawf o'i enillion ac yn cyfrifo a yw'r enillion yn fwy na £7,400 y flwyddyn neu £616.77 y mis (h.y. £7,400 wedi'i rannu gyda 12). Os yw'r enillion yn rhy uchel, ni fydd yr unigolyn yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim (ond bydd yn gallu hawlio eto os bydd ei enillion yn lleihau).

O ran y trothwy o £7,400 y flwyddyn, oni fydd incwm y rhan fwyaf o bobl yn uwch na hyn?

Mae'r trothwy o £7,400 yn cyfeirio at incwm a enillir net a ddiffinnir fel incwm aelwyd ar ôl trethi a didyniadau. Byddai incwm net o enillion gweithwyr cyflogedig ac enillion hunangyflogaeth datganedig yn cael eu hystyried. Nid yw'n cynnwys incwm o'r Credyd Cynhwysol na budd-daliadau eraill.

Beth yw'r rheolau ynghylch Credydau Treth Gwaith?

Nid yw teuluoedd sy'n cael Credyd Treth Gwaith yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, bydd y rheini sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith yn parhau - sy'n cael ei dalu am 4 wythnos arall ar ôl i hawlydd beidio â bod yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith - yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim ar yr amod eu bod yn bodloni gweddill y meini prawf cymhwysedd.

Beth sy'n digwydd os yw amgylchiadau personol y teulu'n newid?

Gall newid mewn amgylchiadau effeithio ar daliadau budd-daliadau teulu a dylid cynghori'r teulu i roi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Byd Gwaith leol ar unwaith (yn dibynnu ar ba fudd-daliadau mae'r teulu'n eu cael). Mae hyn yn cynnwys newid yn y canlynol:

- statws perthynas
- costau gofal plant
- oriau gwaith
- lefelau incwm
- amgylchiadau'r person ifanc
- a yw rhiant yn gadael y DU am fwy nag wyth wythnos

Pan fydd teulu'n rhoi'r gorau i dderbyn y budd-dal sydd wedi'i alluogi i hawlio prydau ysgol am ddim ar gyfer y plant, dylai roi gwybod i'w awdurdod lleol am y newid yn ei amgylchiadau.

Gall teuluoedd fyw yn ardal un awdurdod lleol ond bod eu plant yn mynd i'r ysgol mewn awdurdod lleol cyfagos. Pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu prydau ysgol am ddim y plentyn?

Yr awdurdod lle mae'r disgybl yn mynd i'r ysgol, nid lle mae'r disgybl yn byw, sy'n gyfrifol am:

- ddarparu'r pryd ysgol am ddim
- asesu cymhwysedd hawlydd.

Beth yw'r diffiniad o 'riant' at ddibenion prydau ysgol am ddim?

Mae'r diffiniad o 'riant' yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n gofalu am y plentyn. Mae rhieni maeth yn cael eu cynnwys hefyd. Nid

oes rhaid i'r plentyn fod yn byw gyda'r rhiant sy'n ei wneud yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw ddisgresiwn; os yw rhiant yn bodloni'r meini prawf, mae'r plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Beth sy'n digwydd pan mae plentyn/person ifanc yn cael ei faethu?

Mae deddfwriaeth prydau ysgol am ddim yn caniatáu i rieni maeth hawlio prydau ysgol am ddim. Cyn belled â bod rhiant yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim, mae'r plentyn yn gallu eu cael. Gallai plentyn fod â phedwar rhiant i bob pwrpas; dau riant maeth a dau riant naturiol.

Os yw unrhyw un o'r pedwar rhiant hwn yn bodloni'r meini prawf, mae'r plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Byddai hyn yn wir pe bai mam-gu a thad-cu/nain a thaid neu aelodau eraill o'r teulu yn gofalu am y plentyn hefyd.

Fodd bynnag, mae dryswch ynghylch rhieni maeth sy'n derbyn lwfans am eu gwaith gofalu, sy'n cynnwys talu am gost prydau ysgol. Hwyrach bydd y rhiant maeth a'r awdurdod lleol am ddod i gytundeb ynghylch hyn. Gallai'r plentyn gael y pryd ysgol am ddim ac ni fyddai'r elfen o'r lwfans sydd ar gyfer prydau ysgol yn cael ei thalu i'r rhiant maeth.

Fel arall, gallai'r rhiant maeth gytuno i beidio â hawlio prydau ysgol am ddim a chael y lwfans yn llawn. Mae hyn yn rhywbeth i'w ddatrys rhwng yr awdurdod a'r rhiant maeth.